**(HCC 689)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 4 Mawrth 2016**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Dai Davies (Cadeirydd)<br>John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans |
| **Trwy Wahoddiad:** | Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)<br>Kevin Roberts (Verley Consulting Cyf) |
| **Tim Gweithredol:**<br>**Yno hefyd:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)<br><br>Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)<br>Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br><br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth) |

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

*<u>Diwedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2016</u>*

Bu'r Cadeirydd, Prif Weithredwr a Phennaeth Gweithrediadau yn nerbyniad Brecwast Ffermdy blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar 11 Chwefror 2016, roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yn ystod lansio Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Cymru).

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghynhadledd Flynyddol yr NFU yn Birmingham.

Bu'r Cadeirydd yn nerbyniad Gŵyl Dewi Sant Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ar 2 Mawrth 2016. Dywedodd y Cadeirydd fod y digwyddiad, wedi'i noddi gan HCC, yn llwyddiannus dros ben. Roedd dros 250 o bobl yn bresennol, gan gynnwys swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ac aelodau o Senedd Ewrop.

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **<u>Datganiad o Fuddiannau</u>**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.
Eitem 15 – Wyn Williams

4. **<u>I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 15 Ionawr 2016 (HCC 674)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 15 Ionawr 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Tynnu Llinyn Cefn Defaid / Hollti Carcasau Cig Oen</u>*

Nodwyd bod HCC wedi cefnogi cynnig gan y diwydiant yn y DG wedi'i baratoi gan yr NFU ynghylch pennu oedran defaid ar gyfer rheolaethau deunydd risg penodedig (SRM). Cafodd y cynnig ei anfon at yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'w ystyried.

*<u>Mewnforion Cig Defaid o Seland Newydd</u>*

Nodwyd bod llythyr gan y Cadeirydd wedi'i anfon at y Comisiynydd Hogan i dynnu sylw at bryderon diwydiant cig coch Cymru ynghylch effaith cynhyrchion cig defaid y trydydd gwledydd, yn enwedig o Seland Newydd – ar farchnad Cig Oen y DG a'r yr UE.

Ni chafwyd ateb mor belled.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 675)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *<u>Bwletin y Farchnad (HCC 676)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *<u>Ariannol – Y Fantolen Incwm a Gwariant Ddrafft tan 31 Rhagfyr 2015 (HCC 677)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 678)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cam-YMLAEN 2016*

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad yng Ngelli-aur, ger Caerfyrddin, ym mis Chwefror 2016, roedd digwyddiad tebyg yn cael ei drefnu ar gyfer Llysfasi, Rhuthun ar 17 Mai 2016.. Cynigiwyd hefyd y dylid cynnal digwyddiad hefyd yng Ngholeg Powys, Y Drenewydd, yn ystod mis Medi 2016.

Byddai manylion pellach ar gael yn y cyfarfod nesaf.

e. *I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Eidion Cymru PGI 2015 a gweithgareddau porc.wales*

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad ganlyniadau'r gwerthusiad o ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI, 2015.

Dywedwyd:-

- Cyrhaeddodd yr ymgyrch saith o bob wyth o'r defnyddwyr targed, a oedd yn ystyried taw Cig Eidion Cymru PGI oedd "y brand i mi".

- Rhedodd yr ymgyrch deledu o 26 Hydref tan 22 Tachwedd 2016. Cafwyd 6.4m o ymweliadau gan siopwyr yng Nghymru a'r DG - mwy na'r targed cychwynnol – ac ystyriwyd bod chwech o bob deg o'r defnyddwyr hynny'n debygol o brynu yn y dyfodol.

- Roedd Cig Eidion Cymru PGI yn ganolog i ffordd o fyw fodern sy'n mynnu cyfleustra ac roedd yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer prydau na chigoedd eraill.

- Rodd ymateb da o hyd i ymgyrch "Yn Llawn Daioni" yn ystod cyfnod gemau rygbi rhyngwladol y Chwe Gwlad, yn enwedig yn ystod y gemau eu hunain.

- Cododd ymwybyddiaeth y defnyddwyr o Gig Eidion Cymru ddau y cant i 59 y cant. Cafwyd cynnydd sylweddol yn ogystal mewn cysylltiad â gweithgaredd aml-gyfrwng HCC (dros 60 y cant yn fwy o wylio'r tudalennau pan oedd yr hysbyseb deledu ar waith) a phobl yn treulio bron 35 y cant yn fwy o amser yn darllen y tudalennau.

Bu Rheolwraig Datblygu'r Farchnad yn amlinellu'r gweithgareddau a oedd yn rhan o ymgyrch porc. wales.

Cafodd Porc o Gymru ei gysylltu'n gadarnhaol ag amrediad eang o briodoleddau, gan gynnwys ffermydd bychain a bridiau traddodiadol sy'n nodweddu'r diwydiant yng Nghymru. Roedd yn amlwg o'r ymchwil a wnaed fod y nodweddion hyn yn bwysig i ddefnyddwyr a'u bod yn fwy tebygol o brynu porc o Gymru yn y dyfodol.

Roedd yr ymwybyddiaeth o borc o Gymru ar gynnydd, yr un fath ag ymweliadau â'r gwefannau.

7. **<u>I dderbyn adroddiad llafar am Adolygiad Llywodraeth Cymru o HCC – Mr Kevin Roberts</u>**

Dywedodd Kevin Roberts wrth y Bwrdd ei fod wedi mynychu sawl cyfarfod â chynrychiolwyr ledled y gadwyn gyflenwi i gasglu gwybodaeth fel rhan o'r broses i werthuso swyddogaeth HCC a'i allu fel sefydliad i fod yn rhoi gwerth am arian i dalwyr Ardoll.

Roedd y canfyddiadau cyntaf yn dangos:-

- Dylai'r Ardoll Statudol barhau
- HCC oedd y cyfrwng priodol o hyd ar gyfer casglu a gwario Ardollau Statudol
- Dylai HCC barhau i ddarparu gweithgareddau Datblygu'r Farchnad ond roedd angen eu mireinio
- Roedd angen gwella'r modd y mae gwaith Datblygu'r Diwydiant yn cael ei gyd-gysylltu â gwasanaethau eraill sydd ar gael yn y farchnad ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth – er enghraifft, Cyswllt Ffermio
- Byddai mwy o gydweithio a threfniadau Llywodraethu rhwng HCC a Llywodraeth Cymru o fudd i'r naill sefydliad a'r llall
- Dylai Bwrdd HCC ymwneud fwyfwy â datblygu cynlluniau Strategol a Chorfforaethol, Byddai hynny'n sicrhau mwy o berchnogaeth o Styrategaeth HCC a'r Bwrdd. Byddai hynny yn ei dro yn caniatáu i bob Aelod Bwrdd fod yn fwy effeithiol wrth ymgymryd â'r swyddogaeth bwysig o arwain gwaith HCC a chyfathrebu â'r diwydiant ehangach
- Ynglŷn â'i atebolrwydd i'r diwydiant, dylai HCC ymgysylltu'n fwy effeithiol â thalwyr Ardoll a dylai'r cyfrifoldeb ymestyn i holl Aelodau'r Bwrdd.

Roedd y gwaith ar gyfer yr adroddiad terfynol o fewn yr amserlen a byddai'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd Mehefin 2016.

8. **<u>Cynllun Busnes HCC 2016/2017</u>**

a. *<u>I dderbyn crynodeb sydd yn amlinellu'r sail resymegol a fabwysiadwyd wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer Cynllun Busnes drafft HCC 2016 / 2017 (HCC 679)</u>*

Cymerwyd bod y crynodeb wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Rhoddodd y papur drosolwg o gyllideb arfaethedig 2016 / 2017 yng nghyd-destun y dyraniad Ardoll a ragwelir a'r ymrwymiadau presennol, yr effaith ar gronfeydd wrth gefn ac edrych ymlaen at y newidiadau arfaethedig mewn ariannu yn 2017 / 2018 a 2018 / 2019.

Yna cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2016 / 2017.

b. *<u>I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Busnes drafft HCC 2016 / 2017 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 15 Ionawr 2016 (HCC 680)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. *<u>I gymeradwyo Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2016/2017 (HCC 681)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth ac yn amodol ar y mân-newidiadau a nodwyd, cafodd Cynllun Busnes drafft HCC ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

9. **<u>I ystyried drafft o Gynllun Corfforaethol HCC 2016 / 2019 (HCC 682)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac, yn amodol ar y gwelliant a nodwyd ar dudalen 32, cafodd Cynllun Corfforaethol HCC ar gyfer 2016 / 2019 ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

10. **<u>Dosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

a. *<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>*

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ddogfen friffio Weinidogol ar y cyd (HCC 683) wedi'i chyflwyno i'r Gweinidogion priodol ar gyfer ymgynghoriad. Cafwyd cytundeb ynghylch y ddogfen hon gan y tri Bwrdd Ardoll, a dylai hyn hwyluso'r broses o ymgynghoriad gan y Gweinidogion.

Fodd bynnag, nid oedd disgwyl cynnydd buan oherwydd y cyfnodau encil mewn perthynas ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth yr Alban a Refferendwm yr UE.

b. *Papur er gwybodaeth – Briffio Gweinidogol parthed Dosabrthu Ardoll Cig Coch a'i defnydd ym Mhrydain (HCC 683)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

11. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch Grŵp Myfyrio'r UE ar Gig Defaid**

Cafodd y Bwrdd ei ddiweddaru gan y Prif Weithredwr am gyfarfod yr uchod a gynhaliwyd yng Nghomisiwn yr Undeb Ewropeaidd ar 25 Chwefror 2016 pan gynrychiolwyd 17 Aelod-wladwriaeth:-

Bu'r cyfarfod yn canolbwyntio ar ddau brif bwnc, sef masnach a marchnata cig defaid.

*Masnach*

Cafodd y Fforwm gyflwyniadau am fasnach cig defaid y byd a safbwynt ar fasnach yr UE – y tu mewn i'r Undeb ac â thrydydd gwledydd.

Yn ogystal, cafwyd cyflwyniad gan Dave Harrison o Beef and Lamb New Zealand yn amlinellu masnach allforio cig oen Seland Newydd. Roedd y rhan fwyaf o'r Aelod-wladwriaethau yn neilltuol o ddyfal a heriol yn y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad. Roedd yr Aelod-wladwriaethau yn pryderu ynghylch mewnforion Seland Newydd i'r yr UE, gan nodi amseriad y mewnforion a honni eu bod yn tanseilio'r cynnyrch Ewropeaidd. Hefyd, bu'r Aelod-wladwriaethau yn cwestiynu prisiau isel y cynnyrch o Seland Newydd, gan honni ei fod yn tanseilio'r farchnad.

*Marchnata Cig Defaid*

Cafwyd cyflwyniadau gan sawl rhaglen hyrwyddo cig oen yr UE, gan gynnwys Iwerddon, Yr Alban a Sbaen. Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr am raglen ar y cyd yr UE / Cig Oen Cymru i hyrwyddo'r cig yn yr Almaen, yr Eidal, Denmarc a Sweden. Cytunwyd yn gyffredinol fod y rhaglenni hyn yn werthfawr o ran codi ymwybyddiaeth o'r cig ac yn hanfodol i atal y dirywiad yn y defnydd o gig defaid yn yr UE. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y rhaglenni presennol yn gymhleth iawn ac o'r herwydd yn anodd eu gweinyddu. Awgrymodd y Fforwm y dylid neilltuo swm penodol o arian y rhaglennu UE hyn ar gyfer cig defaid. Cafwyd ar ddeall fod y rhaglenni hyn wedi cael eu hadolygu gan y Comisiwn ac y ceid cyhoeddiad am y rhaglenni newydd yn fuan iawn.

Cynhelid y cyfarfod nesaf ddiwedd Mehefin 2016.

12. **Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

*I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Mawrth 2016*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

13. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

*I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Mawrth 2016*

Rhoddodd y Pennaeth Gweithrediadau adroddiad llafar am y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod: -

- Bu Dr Sharon Huws o IBERS yn amlinellu ei gwaith ar swyddogaeth y rwmen ac ansawdd cig
- Cafwyd cyflwyniad gan Hannah Vallin, myfyrwraig MSc wedi'i hariannu gan HCC, am effaith ychwanegu olew Gwiberlys at ddiet anifeiliaid sy'n cnoi cil.
- Roedd yr holl brosiectau o fewn eu hamserlenni ar hyn o bryd. Ceid cyfarfod i roi diweddariad am y prosiectau yn ystod y misoedd nesaf
- Rhoddodd y Pennaeth Gweithrediadau ddiweddariad i'r Pwyllgor am gynhadledd dechnegol HCC yng Ngelli-aur a oedd yn ymwneud â datblygiadau ymarferol o raglenni ymchwil a gafodd eu cyllido gan HCC ac eraill
- Ni chyflwynwyd unrhyw argymhellion newydd ar gyfer prosiectau i'r Pwyllgor eu hystyried.

14. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch Rhaglen y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020**

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Hyd yma, roedd HCC wedi paratoi cais am arian i ddatblygu Cynllun Strategol ar ran y Sector cig coch yng Nghymru trwy alwad cydweithredu Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Pe bai'r cais yn llwyddiannus, byddai'r arian yn fodd i ddod â gweithgorau'r diwydiant at ei gilydd er mwyn cael mewnbwn ac arbenigedd i

gyflwyno ceisiadau prosiect i'r ffrydiau ariannu priodol. Gwnaed cais am arian dros gyfnod o 10 mis er mwyn cefnogi'r gweithgaredd hwn.

Câi'r cysyniad ar gyfer y Cynllun Strategol i'r Sector Cig Coch ei gyflwyno i fusnesau a sefydliadau sydd yn ymwneud â bwyd yn Nigwyddiad Cydweithredu Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio Llywodraeth Cymru ar 10 Mawrth 2016.

15. **I dderbyn papur ar Asesiad o Alluedd Diwydiant Lladd Cig Coch Cymru (HCC 684)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i darllen, a chafodd ei groesawu gan y Bwrdd.

16. **EIDCymru**

a. *I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid*

Dywedodd y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol fod y system ar waith er 18 Ionawr 2016 ac na chafwyd unrhyw broblemau.

Roedd astudiaethau achos o'r sawl a oedd yn defnyddio dyfais adnabod electronig yn cael eu paratoi ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a rhoddid sylw iddynt yn GWLAD.

Diolchodd y Bwrdd i Swyddogion Gweithredol HCC a staff EIDCymru am roi dechrau didrafferth i'r gwasanaeth.

b. *Papur er gwybodaeth – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a HCC mewn perthynas ag EIDCymru (HCC 685)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i darllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

17. **Papurau er gwybodaeth**

a. *Cynhyrchu a Lladd yn y DG 2015 (HCC 686)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i darllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

b. *Papur diweddaru ar Fewnforion Cig Oen a Chig Eidion ar gyfer Marchnadoedd Allweddol a Thargedau Cymru (HCC 687)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i darllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. *Data cymharol ynghylch cyfaint a gwerthiant yn y DG parthed Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI ar gyfer 2014 a 2015 (HCC 688)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i darllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

18. **Unrhyw fater arall**

*Llywodraeth Cymru – Fframwaith Strategol ar gyfer y Grŵp Partneriaeth Amaethyddiaeth*

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi arwain y broses o ffurfio'r Grŵp uchod (a Kevin Roberts wedi cael ei benodi'n Gadeirydd) er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth isod:

"Diwydiant llewyrchus a chydnerth sy'n hybu lles Cymru, nawr ac i'r dyfodol".

Byddai'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Ymgymryd â dadansoddiad manwl a beirniadol o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu amaethyddiaeth Cymru
- Paratoi Cynllun Strategol hirdymor er mwyn cyflawni'r weledigaeth Chynllun Busnes Blynyddol i hybu'r cynllun
- Comisiynu, rheoli a gwerthuso gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac unigolion a fyddai'n helpu i gyflawni'r weledigaeth

Cynrychiolwyd HCC ar y Grŵp gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

19. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 6 Mai 2016

**Llofnodwyd……………………………..**
**Cadeirydd HCC**